



***Fferm Tyriet a
Bragdy Bluestone
Adroddiad Bywyd Gwyllt***



Paratowyd yr adroddiad hwn gan Ymgynghoriaeth Ecolegol John Hudson ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro fel rhan o'r prosiect 'Cysylltiadau Naturiol'. Cafodd y prosiect ei ariannu gan Gronfa Datblygu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru.

Prosiect peilot yw hwn ac felly byddem wrth ein bodd yn derbyn eich adborth am y pecyn gwybodaeth yma. Gellwch anfon eich sylwadau i sarahme@pembrokeshirecoast.org.uk neu adael eich sylwadau yn y llyfr ymwelwyr.

Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Croeso i Barc Cenedlaethol Arfordir Penfro!

Mae Sir Benfro yn gorwedd ar begwn De-orllewinol Cymru ac yn cael ei hamgylchynu ar dair ochr gan y môr. Mae Llif y Gwlff yn dylanwadu'n gryf ar amgylcheddau môr a thir Sir Benfro ac mae'r Parc Cenedlaethol yn gartref i rywogaethau sydd i'w canfod mewn ardaloedd deheuol, cynhesach yn ogystal â rhai o'r rhanbarthau gogleddol, oerach.

Mae Sir Benfro yn bwysig yn rhyngwladol am ei chynefinoedd arfordirol, morol a rhostir isel yn ogystal â'r coetir derw hynafol, lled-naturiol yng ngogledd y Parc. Mae'r cynefinoedd hyn yn cynnal rhai o'n rhywogaethau mwyaf eiconig gan gynnwys Brain Coesgoch, Palod a Morloi.

Adlewyrchir gwerth uchel bywyd gwylt y Parc yn ei ddynodiadau cadwraeth natur sy'n cynnwys:

- 13 Ardal Cadwraeth Arbennig (Mae tair ACA forol yn gorgyffwrdd tua 75% o arfordir y Parc ac yn cyfrif am oddeutu 60% o ardal y glannau).
- 5 Ardal Gwarchodaeth Arbennig.
- 1 Parth Cadwraeth Morol.
- 7 Gwarchodfa Natur Genedlaethol.
- 60 Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig.

Gyda milltiroedd o arfordir ysgithrog, traethau tywodlyd, bryniau a choetiroedd i'w harchwilio, gobeithiwn y bydd y canllaw byr hwn yn gymorth i chi brofi peth o'r bywyd gwylt gwych sydd gan ein Parc Cenedlaethol i'w gynnig.



Fferm Tyriet

Daw'r enw Tyriet o'r Cymraeg gwreiddiol Tŷ'r Iet, sef Tŷ'r Giât, sydd, mae'n debyg, yn cyfeirio at giât fynydd oedd erstalwm yn arwain i dir comin Mynydd y Preseli. Fferm organig 100 acer mewn dwylo preifat yw Tyriet yng Nghwm Gwaun, wrth odre mynyddoedd y Preseli. Mae'r fferm a'r tir o'i hamgylch yn llawn hanes ac mae ymweliad â'r fan hon yn mynd â chi'n ôl mewn amser. Ychydig mae patrymau'r caeau wedi newid ers y bedwaredd ganrif ar bymtheg ac mae'r caeau bychain yn cadw eu henwau Cymraeg, megis "Y Waun". Nodir hen derfynau'r caeau â waliau cerrig a gwrychgloddiau a choed derw yma ac acw..

Mae Fferm Tyriet yn gorwedd yng Nghwm Gwaun. Mae'r afon Gwaun yn tarddu i'r dwyrain o Bontfaen ac yn rhedeg i mewn i'r môr yn Abergwaun. Cafodd y cwm hwn a'i lethrau serth ei dorri gan ddyfroedd yn llifo o'r rhewlif wrth iddo doddi ar ddiwedd yr Oes lâ ddiwethaf – mae'n un o sianelau dŵr rhewlifol mwyaf trawiadol ym Mhrydain. Heddiw mae'r cwm yn dangnefeddus gyda nentydd gloyw yn llifo drwy goedwigoedd gwyrdd plethedig. Mae Tyriet yn nythu islaw un o'r coedwigoedd hyn. Mae Gallt Pontfaen yn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Coed Gelli Fawr (SSSI).

1

Porfeydd a Dolydd

Mae gweirgloddiau sy'n cael eu rheoli yn y dull traddodiadol ([Pwynt 2 ar y map](#)) yn bethau prin y dyddiau hyn, gan wneud y rhan fechan hon o Sir Benfro yn lle arbennig iawn. Wrth fwrw golwg yn ôl mewn amser gallwn ddeall pam mae hyn yn wir. Yn ystod y rhyfel, roedd bwyd yn brin a chafodd llawer o laswelltir, a arferai gael ei reoli'n draddodiadol, ei aredig – naill ai i'w droi'n dir â neu i'w ail hau â glaswellt mwy cynhyrchiol gan ychwanegu dognau uchel o wrtaith i gynyddu'r cynnyrch fwy fyth. Canlyniad y gwelliannau amaethyddol hyn wrth gwrs yw mwy o gynnyrch a mwy o fwyd ond daeth hyn ar draul yr hen laswelltiroedd yn llawn blodau gwyllt. Ar draws y wlad i gyd ers 1939, mae Prydain wedi colli mwy na 95% o'r glaswelltiroedd oedd yn cael eu rheoli'n draddodiadol, ac yn eu lle daeth un cnwd o rygwellt nad yw'n cynnal llawer o flodau na bywyd gwyllt.



Glaswelltir llawn blodau

Nid yw'r glaswelltiroedd yn Tyriet yn cael eu haredig ac nid ychwanegir gwrtaith artiffisial ac oherwydd hyn gall eu hamrywiaeth blodau fod yn ddigon o ryfeddod. Mae amrywiaeth enfawr o blanhigion yn tyfu yn y gweirgloddiau a'r porfeydd a byddant yn troi'n fôr o borffor a melyn yn yr haf pan fydd y Blodyn Pengaled (yn y darlun ar y dde)), Dant y Llew Lleiaf a Meillion Hopysaidd yn blodeuo. Fodd bynnag, mae eu pwysigrwydd yn ymestyn y tu hwnt i'w hamrywiaeth blodeuog amlwg gan eu bod yn creu rhwydwaith cymhleth o fwyd. Mae adar sy'n nythu ar y llawr yn gallu gorffen magu eu cywion ac mae'r blodau'n darparu ffynonellau neithdar cyfoethog a phaill ar gyfer amrywiaeth o bryfaid megis gwenyn a gloënnod byw.



Blodyn Pengaled



Birds-foot Trefoil

Gall fod yn anodd cynnal y cydbwysedd hwn gan y gall glaswellt yn hawdd gymryd drosodd oddi wrth y blodau sy'n llai cystadleuol. Bydd gwartheg yn pori yn y porfeydd yn Tyriet yn yr haf a chymerir cnwd o wair o'r gweirgloddiau. Unwaith y flwyddyn yn unig y torrir y gwair, o fis Gorffennaf ymlaen. Rhydd hyn gyfle i'r blodau gwyllt flodeuo a gollwng hadau. Mae'r drefn o dorri glaswellt ynghyd â mewnbwn bychan o wrtaith organig yn cadw lefelau maetholynnau'n isel ac yn caniatáu i'r blodau gwyllt ffynnu. Ar ôl i'r gwair gael ei dorri tua diwedd Gorffennaf neu Awst bydd gwartheg a defaid hefyd yn pori'r adlodd.

2

Gwlyptir, llifddôl a phwll

Mae gwlyptiroedd yn fannau sydd dan ddŵr am ran o'r flwyddyn o leiaf. Yn Tyriet, pan fydd yr afon Gwaun yn codi bydd yn gorlifo'r gwlyptir ([Pwynt 5 ar y map](#)). Mae llawer o wlyptiroedd yn cael eu bygwth gan ddraeniad, tynnu dŵr a datblygiadau. Nid yw'r gwlyptiroedd a'r llifddôl yn Tyriet ([Pwynt 1 ar y map](#)) wedi cael eu draenio, gan adael i Feillion Hopysaidd, Llafnlys, Ysgorpionllys y Gors, Carpiog y Gors (Ar Y Dde), Helyglys y Gors, Crafanc Brân Ymlusgol, Iris a Mintys y Dŵr i gyd ffynnu yn y mannau amrywiol hyn. Mae'r amrywiaeth gyfoethog hon o blanhigion yn ei thro yn cynnal amrywiaeth fawr o fywyd gwyllt. Mae'r gwlyptiroedd yma yn berffaith i amffibiaid megis Llyffantod, Brogaod a Madfall y Dŵr yn ogystal â chreaduriaid di-asgwrn-cefn megis Chwilod a Gwyfynod a Gloënnod Byw.



Carpiog y Gors



Chwilen Blymio

Mae Gwas y Neidr a'r Fursen hefyd i'w gweld yn mwynhau'r heulwen ar llystyfiant ger y pwll (Pwynt 8 ar y map). Mae gwas y neidr yn dal ei adenydd ar led wrth orffwys ac mae ei gorff yn fawr. Mae mursennod yn fwy cywrain na gwas y neidr ac yn dal eu hadennydd at ei gilydd wrth orffwys – edrychwch allan ymhlith y llystyfiant am eu cyrff tenau fel matsien sy'n goch neu las llachar. Yn byw yn y pwll ac yn treulio cylch cyfan eu bywyd yno mae amrywiol bryfaid gan gynnwys y Chwilod Plymio, Chwilod Bwgan a Rhianedd y Dŵr.

Dim ond am ran o gylch eu bywyd y mae ar greaduriaid eraill, megis y Madfall, y Llyffant a'r Broga, angen cronfa o ddŵr. Byddant yn atgynhyrchu ynddo, ond yn aml yn mynd i hirgwsig ar y tir dros y gaeaf. Mae Gwas y Neidr a'r Fursen hefyd yn treulio llawer o gylch eu bywyd mewn pyllau, llynnoedd neu nentydd gan ddod allan i ddarganfod cymar a bridio ond dychwelyd i'r dŵr i ddodwy wyau.

3

Y Bragdy a Hidlydd y Corslwyn

Yn 2013 agorwyd Bragdy Bluestone ym muarth Tyriet. Mae'r bragdy a'r fferm yn gweithio gyda'i gilydd mewn ffordd gyfannol. Yn ystod y broses fragu, mae angen symiau mawr o hopys. Pan fydd y rhain wedi gorffen rhoi blas i'r cwrw, byddant yn cael



Mae hidlydd y corslwyn yn glanhau'r dŵr cyn iddo ddychwelyd i'r afon

eu bwydo i'r gwartheg ynghyd â'r burum a'r grawn! Sefydlwyd hidlydd corslwyn (Pwynt 9 ar y map) a thrwy hwn bydd y dŵr gwastraff ar ôl glanhau'r casgenni yn cael ei hidlo yn ôl i'r ddaear. Mae'r corslwyn hefyd yn ffurfio cynefin diddorol ynddo'i hun.

Mae Tingochiaid hefyd yn nythu yn agennau adeiladau'r bragdy!



Tingoch

Coetir

4

Mae peth o goetir Tyriet heb ei bori (Pwynt 3 ar y map) ac oherwydd bod gwartheg a defaid yn cael eu cau allan ohono mae'n medru atgynhyrchu'n naturiol, gan y gall coed ifanc dyfu heb gael eu bwyta neu eu sathru. Mae'r rhan hon wedi ei rhestru fel Coetir Hynafol sy'n golygu bod y tir hwn wedi bod yn goediog ers y 1660au a hyd yn oed yn hwy

na hynny mae'n debyg. Mae'r haen o lwyni a llystyfiant mewn coedwig heb ei phori yn creu'r amodau addas i bathewod ac i adar megis yr Adar Penddu a'r Dryw Melyn nythu. Ar draws yr afon Gwaun gyferbyn â Tyriet mae Gallt Pontfaen – Ardal o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Coed Gelli Fawr, sy'n cynnwys chwe choedwig hynafol lled naturiol sy'n cydgyffwrdd. Mae'r coetir parhaus hwn yn bwysig, yn cysylltu'r goedwig yn Tyriet â'r tirwedd ehangach a chaniatáu i rywogaethau fel y pathewod a'r dyfrgwn wasgaru drwy'r dyffryn.



Pathew PCNPA

Yn y nos mae sŵn nodweddiadol y dylluan frech i'w glywed yn adleisio o'r coetir ond annhebygol ydych o'u gweld gan mai adar y nos ydynt. Yng ngolau ddydd maent yn debygol o fod yn cuddio, wedi eu cuddliwio'n dda iawn mewn twll mewn coeden neu weithiau'n eistedd ar gangen.

4

Porfa Goediog

Adwaenir coetir sy'n cael ei bori fel 'porfa goediog' (**Pwynt 4 ar y map**), tir lle mae digon o le rhwng y coed sy'n tyfu yma ac acw dros dir porfa. Mae pori cyson yn cadw'r coed rhag atgynhyrchu ac yn cael gwared â'r haen o lwyni. Mae'r coed yn aml yn gnotiog oherwydd effeithiau da byw yn pori ac efallai y bydd cyfoeth o gen arnynt. Mae'r cynefin hwn yn gynefin arbennig yng ngorllewin Cymru ac mae'n cynnal milod ar gyfer adar megis y Gwybedog Penddu, y Tingoch a Thelor y Coed. Mewn tyllau y bydd y Gwybedog a'r Tingoch yn nythu ac mae cadw hen goed a bonion marw sy'n dal i sefyll yn darparu safleoedd nythu ar eu cyfer.



Y Gwybedog Penddu

Mae'r coedydd cyfagos i Tyriet wedi eu dynodi fel

Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, yn rhannol oherwydd y cymunedau cyfoethog o gennau sydd ynddynt. Mae cennau yn amlwg iawn yn y goedwig ac ar y coed yn y caeau gan dyfu ar y boncyffion a'r brigau. Mae cennau yn rhannol yn ffwng ac yn rhannol yn algâu. Y ffwng sy'n darparu'r strwythur neu'r "cartref" a'r algâu sy'n darparu'r bwyd, drwy ffotosynthesis. Mae cennau yn tyfu mewn tair gwahanol ffurf, fel crystyn (crustose), neu fel dail (foliose) neu'n dew fel barf (fruticose). Mae cennau'n amsugno maetholynnau o'r aer ac am nad oes ganddynt reolaeth dros yr hyn y maent yn ei amsugno, maent yn sensitif iawn i lygryddion fel sylffwr deuocsid a nitrogen. Mae eu helaethrwydd yma ar Fferm Tyriet yn dangos bod ansawdd yr aer yn dda. Mae llawer o'r adar sy'n



Cennau

nythu ymhlith y coed a'r llwyni hefyd yn defnyddio cennau i leinio eu nythod!

5 Prysgwydd



Yn Tyriet bydd yn dymor cusanu drwy'r amser gan fod y prysgwydd ([Pwynt 7 ar y map](#)) yn gymysgedd o redyn ac eithin ac yn ôl yr hen ddywediad pan na fydd yr eithin yn blodeuo mae cusanu allan o'r ffasiwn. Mae'r tymor hir hwn o flodeuo yn fuddiol i amrywiaeth eang o bryfaid gan ei fod yn darparu neithdar drwy gydol y flwyddyn pan nad oes ond ychydig o flodau eraill ar gael.

Eithin Ewropeaidd

Mae eithin yn rhan o deulu'r pys sy'n golygu bod nodau yn y gwreiddiau lle mae bacteria sy'n cadw nitrogen yn byw. Mae eithin a'r bacteria cysylltiedig yn cymryd nitrogen allan o'r atmosffer ac yn cyfoethogi'r pridd. Mae'r planhigyn byw yn faethlon i dda byw ond yn cael ei amddiffyn yn dda gan nodwyddau. Mae ceffylau'n hoff o fwyta'r egin newydd ffres yn y gwanwyn neu'n dilyn torri neu losgi. Yn y gorffennol defnyddid eithin yn aml, wedi ei dorri a'i falu mewn 'Melinau Eithin' arbenigol, fel bwyd i geffylau a gwartheg yn y gaef.

7 Coedlan Gyll

Bôn-docio coed ([Pwynt 6 ar y map](#)) yw'r dull traddodiadol o gynhyrchu coed i amrywiol ddibenion. Mae bôn-docio yn golygu torri coeden yn isel at y ddaear. Mae hyn yn peri i nifer o egin newydd aildyfu'n egniol ac ymestyn oes y goeden. Yn draddodiadol defnyddid coedlan gyll i nifer o bwrpasau megis gwneud clwydi defaid a waliau o blethwaith ar gyfer tai. Pan fydd coed yn cael eu bôn-docio, mae mwy o olau yn cyrraedd y ddaear, sy'n achosi i fwy o blanhigion gwahanol dyfu, y mae pryfaid ac adar megis teloriaid yn cael budd ohonynt hefyd.

Fodd bynnag, mae'r aflonyddwch rheolaidd hwn yn golygu bod rhai organebau fel cennau, sy'n araf yn tyfu, dan anfantais gan fod arnynt angen coedwigoedd heb aflonyddwch. Serch hynny, yn ogystal â'r coedlannau, ceir rhai enghreifftiau hardd o hen goed cyll mawr, heb eu torri, ar fferm Tyriet sy'n darparu'r union amodau hyn.



Coed Cyll

Gwyddom erstalwm fod coedwigoedd Cyll yn hoff gynefin i bathewod sy'n bwydo ar gnau yn yr Hydref yn barod ar gyfer eu hirgwsg. Yn y gwanwyn, bydd pathewod yn dod allan o'u

hirgwsg ac yn gwledda ar y llawnder o lindys gwyfynod, gan gynnwys yr emrallt mawr a'r wMBER barrog, sy'n bwydo ar ddail cyll sydd newydd agor. Mae adar fel Cnocell y Cnau, Sgrech y Coed ac amrywiol Ditw hefyd yn cymryd eu siâr o'r cnwd cnau. Efallai y caiff rhai o'r rhain eu gollwng neu eu colli ac yn y ffordd hon bydd coed newydd yn ymsefydlu.

8

Terfynau caeau

Mae ymylon y caeau a therfynau'r caeau yn Tyriet yn hynod o arbennig. Mae llawer o'r terfynau wedi aros yn ddigyfnewid ers cannoedd o flynyddoedd. Mae'r hen gloddiau a'r waliau cerrig yn noddfa i lawer o blanhigion ac mae anifeiliaid megis llygod y coed a llygod y dŵr yn darganfod cartref yn eu hagennau lluosog. Mae llawer o goed hynafol yma ac acw ar hyd y terfynau. Yn wahanol i goed y goedwig, mae'r coed hyn yn y gwrychoedd wedi tyfu ers canrifoedd heb gystadleuaeth ac wedi datblygu pennau crwn anferth gyda changhennau llorweddol enfawr yn drwm o fwsogl, rhedyn a chennau.



Glöyn Byw Gwyrdd Mawr

9

Dyfrgwn

Anifeiliaid lled-ddyfrol yw Dyfrgwn, sy'n byw ar hyd afonydd ac yn aml yn anifeiliaid swil, unig ac yn fwyaf prysur wrth iddi nosi a thrwy gydol y nos. Roedd niferoedd y dyfrgwn



Dyfrgi

wedi bod yn gostwng yn ddifrifol oherwydd colli cynefin ac o ganlyniad i ansawdd gwael y dŵr. Erbyn hyn, fodd bynnag, mae mesurau cadwraeth wedi bod o gymorth i adfer eu poblogaethau dros y degawdau diwethaf. Ac yn awr mae dyfrgwn i'w gweld yn rheolaidd mewn rhannau addas o Sir Benfro. Bydd dyfrgwn yn sefydlu eu cuddfannau yn nodweddiadol mewn ardaloedd coediog, ar hyd glannau afonydd mewn coed gwag neu mewn corslwyni. Mae arnynt angen afonydd glân gyda digon o bysgod ac amffibiaid i'w hela. Gall dyfrgwn symud yn fedrus mewn dŵr a thros y tir a gallant deithio pellteroedd mawr, hyd at 26 milltir mewn un noson. Gellir gweld dyfrgwn yn bwydo yn ystod y dydd hefyd, ac ar unrhyw daith ar hyd glan yr afon, mae'n werth cadw'n dawl iawn a chadw llygad yn fanwl ar yr afon.

wedi bod yn gostwng yn ddifrifol oherwydd colli cynefin ac o ganlyniad i ansawdd gwael y dŵr. Erbyn hyn, fodd bynnag, mae mesurau cadwraeth wedi bod o gymorth i adfer eu poblogaethau dros y degawdau diwethaf. Ac yn awr mae dyfrgwn i'w gweld yn rheolaidd mewn rhannau addas o Sir Benfro. Bydd dyfrgwn yn sefydlu eu cuddfannau yn nodweddiadol mewn ardaloedd coediog, ar hyd glannau afonydd

Cynhaliwyd arolwg ystlumod yn Tyriet, pan gofnodwyd amryw o rywogaethau o ystlumod. Yn ogystal â'r cofnodion hyn, mae'r Ystlum Trwyn Pedol Lleiaf, y Clebrwr, yr Ystlum Brown Clustiog, yr Ystlum Trwyn Pedol Mwyaf a'r Barbastél, i gyd wedi eu cofnodi'n agos i'r fferm. Mae llawer o gynefinoedd da ar gyfer ystlumod drwy Gwm Gwaun i gyd. Mae darnau mawr o goetir ar gyfer clwydo a llawer o bryfaid i chwilota amdanynt.

Mae ystlumod trwyn pedol yn defnyddio ardaloedd coediog i chwilota am fwyd ond annhebygol iawn ydynt o glwydo yn y goedwig gan mai mewn ogofâu yr oeddent yn preswyllo'n wreiddiol, ond yn y blynyddoedd diwethaf, maent wedi dechrau clwydo yng ngofod y to mewn tai mawr yn y wlad ac mewn eglwysi. Gellir gweld llawer o ystlumod wrth iddi ddechrau tywyllu, yn bwydo uwchben y dolydd a'r afon.

Mae niferoedd o'r ystlumod Soprano a'r ystlumod Lleiaf wedi cael eu cofnodi yn bwydo o gwmpas Tyriet. Mae'n debygol iawn bod man clwydo gerllaw.

Clywir y Gog yn Tyriet bob blwyddyn. Bydd yn cyrraedd yn ôl yn y DU tua diwedd Ebrill neu ddechrau Mai, a'i galwad yn datgan bod yr haf rownd y gornel.

Parasit cyfrwys yw'r gog. Yn wahanol i adar eraill, nid yw'r fam gwcw yn adeiladu ei nyth ei hun. Yn hytrach, bydd yn edrych am adar megis corhedydd y waun, llwyd y berth neu bibydd yr hesg sydd eisoes wedi gwneud nyth a dodwy wyau. Gyda'i thebygrwydd nodedig i adar ysglyfaethus, bydd y gwcw yn gyntaf yn dychryn y rhieni i ffwrdd o'r nyth ac wedyn yn gosod ei hwyau hi ei hun yn y nyth. Pan fydd yr wyau wedi deor, bydd cyw y gog yn gwrthio adar a wyau eraill allan o'r nyth. Yn rhyfedd iawn, bydd y fam yn rhoi ei holl amser i fwydo'r gwcw, fydd yn aml yn tyfu i fod yn llawer mwy na hi ei hun.



Y Gog

Hyd yn oed ar wahân i'r gog, mae Tyriet yn lle gwych i wyllo adar. Gwelir y Boncath a'r Barcud yn aml uwchben. Mae adar ysglyfaethus eraill a gofnodwyd yma yn cynnwys y Cudyll Glas, y Cudyll Coch a'r Hebog Tramor.

Mae cloddiau traddodiadol trwchus a'r gymysgedd o goetiroedd a glaswelltiroedd yn golygu bod



Gäach

amrywiaeth o adar tir fferm cyffredin ac adar yr ardd yn cartrefu yn Tyriet, er enghraifft, y Titw Glas a'r Titw Mawr, yr Asgell Fraith, Llwyd y Gwrych, y Dryw, y Fronfraith a llawer mwy.

Wrth i'r haf fynd yn ei flaen, gellir gweld llu o adar eraill megis y Llinos Bengoch, Llinos, y Llwydfron a'r Dringwr Bach (Mae dringwyr bach wedi bod yn defnyddio blwch nythu ger y pwll). Ar y porfeydd mwy agored, efallai y gwelwch Bibydd y Waun a chlywed cân haf hiraethus yr Ehedydd.

Mae'r fferm ac adeiladau'r bragdy yn croesawu ymwelydd haf poblogaidd ac mae'r buarth yn ferw o weithgaredd wrth i Wenoliaid wibio i mewn ac allan o adeiladau i'w nythod ar silffoedd ac mewn conglau a thyllau yng nghysgod yr adeiladau. Mae'r porfeydd o amgylch yn gwneud lle ardderchog i'r adar fwydo wrth fagu eu cywion a'u bwydo'u hunain yn y diwedd cyn cychwyn ar eu taith hir yn yr hydref.

Yn y coetiroedd gellwch ddod o hyd i rai adar arbennig iawn, sydd ar y rhestr goch oherwydd y pryder dros y gostyngiad diweddar yn eu poblogaeth, yn enwedig Titw'r Gors, y Gwybedog a'r Gwybedog Brith. Mae'r adar hyn yn arbennig i borfeydd coetir, dull o reoli tir oedd yn arfer bod yn ddull poblogaidd ar un adeg, ond mae porfa coetir wedi dirywio yn yr ardal a dyna'r rheswm pam mae poblogaethau'r rhain yn cael trafferth.

Wrth i'r hydref droi yn aeaf, bydd y Giach yn bwydo ar y porfeydd gwlyb a bydd y Cyffyllog yn cysgodi ymhlith y coed Gwern. Gellir gweld heidiau o deulu'r Fronfraith yn bwydo ar y caeau yn y gaeaf gan gynnwys Coch yr Adain, Sogieir a'r Dresglen. Cofnodwyd y Cornicyll Aur hefyd yn defnyddio'r fferm yn y gaeaf.

Yn syth fel y mae'r wylan yn hedfan, nid yw Tyriet ymhell o'r môr, ac weithiau bydd y Wylan Gefnddu Fawr, a'r Wylan Gefnddu Lai a Gwylanod y Penwaig yn mentro yma y tu allan i dymor magu cywion.

Map o Tyriet - Allwedd

- 1 Gweirglodd Wlyb
- 2 Gweirglodd
- 3 Coetir Llydanddail
- 4 Porfa Goediog
- 5 Gwlyptir
- 6 Coedlan Gyll
- 7 Prysgoed
- 8 Pwll yn y weirglodd wlyb
- 9 Corslwyn

Map of Tryriet



Key

- 1 Wet meadow
- 2 Hay meadow
- 3 Broadleaved woodland
- 4 Wooded pasture
- 5 Wetland
- 6 Hazel coppice
- 7 Scrub
- 8 Pond in wet meadow
- 9 Reed bed



Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
Pembrokeshire Coast National Park

Ymhellach Draw

Mae llawer o fywyd gwyllt i'w archwilio yng Ngogledd a Gorllewin Sir Benfro; dyma ychydig o syniadau am leoedd i fynd iddynt i'ch helpu chi i brofi rhai o rywogaethau eiconig a chynefinoedd Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro.

1 Coetiroedd

Saif Tyriet yng nghanol coetiroedd cwm Gwaun yn y rhan fwyaf coediog o'r Parc Cenedlaethol. Y coedwigoedd hyn yw Ardal Gadwraeth Arbennig Gogledd Sir Benfro. Mae'n cynnwys 6 safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig rhwng Llanychaer i'r Gorllewin a Choedwig Pengelli ger Eglwyswrw i'r dwyrain. Mae Pontfaen yn fan cychwyn da ar gyfer mynd am dro gyda lle i barcio fel ag y mae Sychpant a Kilkiffeth. Mae coetir o goed derw crebachlyd yn glynu wrth briddoedd asidig tenau ar ochrau'r cwm. Derw yw'r coetiroedd yn bennaf, sy'n tyfu ochr yn ochr â nifer llai o goed Ynn, Cyll, Bedw, Gwern a Helyg. Ceir arddangosfeydd gwych o flodau'r gwanwyn yn y coetiroedd hyn gan gynnwys Clychau'r Gog, Blodau'r Gwynt, Dail Surion Bach a Garlleg Gwyllt. Maent hefyd yn bwysig iawn am eu rhedyn, mwsogl a chennau, a'r mwyaf adnabyddus o'r rhain yw'r "cen barf selsig" trawiadol.



Tŷ Canol



Cen Barf Selsig

Mae Gwarchodfa Natur Genedlaethol Tŷ Canol yn fan gwirioneddol unigryw a rhyfeddol lle y cewch brofi awyrgylch hudolus coedwig dderw ar yr ucheldir gyda chlogfeini mwsoglyd anferth a hen goed crebachlyd, cnotiog a changhennau sy'n diferu o fwsogl, rhedyn a chennau. Mae'r "coed derw lwerydd" hyn wedi eu cyfyngu i ymylon arfordirol gorllewin Prydain sydd â hinsawdd llaith, mwell gyda glawiad uchel a phridd asidig. Nid ydynt wedi cael eu newid ryw lawer gan weithgarwch dynol ac fe'u hadwaenir fel "coedwig law dymherus" Prydain.

2 Mynyddoedd y Preseli a Charn Ingli

Mynyddoedd y Preseli a Charn Ingli yw nodweddion amlycaf tirwedd Gogledd Sir Benfro ac maent yn fyd gwahanol i atyniadau'r arfordir. Ar ddiwrnod clir, os dringwch i'r copa cewch olygfeydd ysblennydd ar draws rhan helaeth o Sir Benfro.



Clochdar y Cerrig

miloedd o Gwtiaid Aur yn clwydo ar Garn Ingli pan fydd llanw uchel yn eu hatal dros dro rhag bwydo yn Aber yr Afon Nyfer gerllaw.

Gellir gweld amrywiaeth o adar ysglyfaethus gan gynnwys y Cudyll Coch, yr Hebog Llwydlas a'r Boncath. Mae cân yr Ehedydd yn gyfeiliant i ddiwrnod cynnes o haf a gellir gweld Llinosiaid a Chlochdar y Cerrig (yn y lluniau) yn sefyll ar y llwyni eithin.

Tua diwedd yr haf a dechrau'r hydref daw'r rhostir yn fyw wrth i'r grub porffor a'r eithin melyn flodeuo. Yn y gaeaf mae

Tir Comin Gogledd-orllewin Sir Benfro

3

Yn agos i Dyddewi, mae eangderau mawr Tir Comin Gogledd-orllewin Sir Benfro, casgliad o diroedd comin hynafol oedd unwaith yn eiddo i esgobion Tyddewi. Llefydd gwyllt yw'r tiroedd comin hyn, tir mynediad agored, lle y gall rhywun grwydro ar ei ben ei hun yng nghwmni myrdd o blanhigion, adar ac anifeiliaid prin. Yma fe welwch erwau o rostir, glaswelltir a gwlyptir corsiog yn cael ei bori gan wartheg a merlod. Mae'r holl diroedd comin hyn wedi eu dynodi'n Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ac yn cael eu cydnabod fel mannau o bwysigrwydd rhyngwladol. Gwyddom fod y safleoedd amrywiol hyn yn cynnal ymhell dros 350 o rywogaethau o blanhigion blodeuol gan gynnwys rhai prin fel y



Llinos

Tegeirian Llydanwyrdd Bach a'r Dyfr-lyriad Bychan.



Alarch y Gogledd

Mae'r tiroedd comin hefyd yn cynnal amrywiaeth eang o greaduriaid di-asgwrn-cefn gan gynnwys glöyn byw Brith y Gors, Gwyfyn Teigr Ysgarlad, Mursen Goch Fach, Gwas y Neidr Blewog a Mursen Gynffon Las brin. Mae digonedd o adar hela sy'n gaeafu ac adar ysglyfaethus. Mae Hebogiaid Llwydlas yn clwydo ar Gomin Dowrog, a

Penmaendewi

Thylluanod Clustiog ar weundiroedd maes awyr Tyddewi. Mae'r Cudyll Bach yn ymwelydd cyson hefyd yn y gaeaf. Mae Elyrch Bewick ac Elyrch y Gogledd, Corhwyaid, Chwiwellau, Hwyaidd Llydanbig a Hwyaidd Gwylt i gyd i'w gweld yn y gaeaf wrth Bwll Dowrog ac ar Ros Trefeiddan ynghyd â'r Giach, Rhegen y Gors, y Cwtiar a'r Iâr Ddŵr. Mae'r gwlyptiroedd hefyd yn gartref i Delor y Gwair, Bras y Gors a Thelor yr Hesg pan fyddant yn magu cywion. Mae Dyfrgwn a Chwistlod Dŵr hefyd wedi'u cofnodi, yn enwedig ar hyd afon Alun sy'n llifo drwy Gomin Dowrog. Tua diwedd yr haf a dechrau'r hydref bydd y tiroedd comin yn dod yn fyw o liwiau porffor a melyn llachar wrth i'r grug a'r eithin flodeuo gyda'i gilydd yn un arddangosiad ysblennydd.

Mae Penmaendewi, sef pentir Tyddewi, yn crynhoi i'r dim yr hyn sydd orau am Barc Cenedlaethol Arfordir Penfro – lleoliad gorllewinol, pellennig, clogwyni serth, hynafol, cildraethau euraidd diarffordd, bryniau wedi eu gorchuddio â grug a chyfoeth o fywyd gwyllt. Mae Penmaendewi yn lle gwych i weld amrywiaeth eang o adar, ac felly gwnewch yn siŵr eich bod yn dod â'ch ysbienddrych! Yr aderyn i edrych allan amdano yma yw'r frân goesgoch, aelod prinnaf teulu'r brain gyda'i phig coch crwm nodedig a'i choesau coch. Gellir gweld Brain Coesgoch drwy gydol y flwyddyn yn hedfan mewn haid neu mewn grwpiau teuluol bychain. Mae ganddynt alwad unigryw a gellir eu clywed yn aml cyn eu gweld. Yn Sir



Brân Goesgoch

Benfro mae oddeutu 60 pâr yn nythu a bridio ar hyd y clogwyni. Mae hyn yn cynrychioli bron i hanner poblogaeth y brain coesgoch sy'n bridio yn y DU. Mae'r adar eraill sydd i'w gweld yma yn cynnwys: yr Hebog Tramor, y Cudyll Coch, y Gigfran, yr Wylan a'r Wylanwydd (mae oddeutu 39,000 pâr o Wylanwyddau yn nythu ar Ynys Gwales). Mae llawer o adar cân yn dod o hyd i gartref yma hefyd, gan gynnwys y Gynffonwen, Clochdar y Cerrig, y Llinos a'r Llwydfron. Mae Telor yr Eithin yn wirioneddol brin, ond yn aderyn sydd wedi dod i fridio'n rheolaidd ar weundiroedd arfordirol Sir Benfro erbyn hyn.



Mulfran Wen

Ychydig i'r dwyrain o'r pentir mae Coetan Arthur yn gorwedd, beddrod gyda siambr megalithig, sy'n dyddio'n ôl i'r cyfnod Neolithig hwyr, ac ar ben draw'r pentir ceir gweddillion bryngaer o'r Oes Haearn.

Dylai pob taith i Sir Benfro gynnwys treulio amser yn archwilio ein glannau creigiog. Yn yr ardal hon mae ochr ddwyreiniol Cwm yr Eglwys a Threfdraeth yn ddewisiadau da.



Anemoni

Mae glan y môr yn lle anodd i fyw ac mae'r rhywogaethau wrth ben y lan yn gorfod ymdopi ag eithafion tymheredd a bod yn agored i'r dywydd tra mae'r rhai ar y lan isaf angen medru dioddef cyfnodau maith o'r golwg mewn dŵr hallt. Mae bywyd ar y traeth creigiog yn trefnu ei hun mewn parthau o'r llanw uchel i'r llanw isel, yn ôl pa mor dda y mae'r organeb wedi addasu i fyw yn yr

amodau hynny. Os edrychwch chi ar y clogwyni gellwch weld bandiau lliw gwahanol lle nad yw

rhywogaethau yn goroesi ond yn yr amodau sy'n benodol i'r uchder hwnnw ar y lan.

Edrychwch allan am greaduriaid clasurol traeth creigiog megis y Berfagl, Cregyn Llong, y Llygad Maharen a'r Gragen Las yn ogystal â gwahanol fathau o Anemoni'r Môr, Sbyngau a Seren y Môr. Mae gwymon brown fel gwymon codog mân a gwymon danheddog yn arglwyddiaethu ar y lan ganol, ond edrychwch yn fanylach i gael gweld letys môr gwyrdd llachar mwy bregus ac algâu gwydrog pinc golau.



Seren y Môr

Cofiwch beidio â thynnu unrhyw beth oddi ar y creigiau ac os byddwch yn troi craig drosodd, ei rhoi ofalus yn ôl yn yr un lle. Rhowch yr anifeiliaid yn ôl lle y cawsoch hwy, crancod yn ôl o dan y gwymon, corgimychiaid yn ôl yn eu pyllau.

Un o'r cregyn mwyaf prydferth ar y lan yw'r Gragen Uchaf yn siâp côn. Cregyn lliw porffor yw'r rhain gyda phigau sgleiniog wedi eu gwneud o Gregynem.

Atodiad 1 – Rhywogaethau Planhigion a Gofnodwyd yn y Weirglodd Wlyb

Enw Gwyddonol	Enw Cyffredin
<i>Achillea millefolium</i>	Milddail
<i>Achillea ptarmica</i>	Ystrewlys
<i>Agrostis stolonifera</i>	Maeswellt Rhedegog
<i>Agrostis capillaris</i>	Maeswellt Cyffredin
<i>Ajugareptans</i>	Corn Glas
<i>Alnusglutinosa</i>	Gwernen
<i>Anagallis tenella</i>	Gwlyddyn Mair y gors
<i>Angelica sylvestris</i>	Llysiau'r Angel, Aralia Ddreiniog
<i>Anthoxanthumodoratum</i>	Melynwellt y Gwanwyn
<i>Aphanesaustralis</i>	Troed y Dryw
<i>Arrhenatherumelatus</i>	Ceirchwellt Ffug
<i>Athyriumfilix-femina</i>	Marchredynen Fenyw
<i>Bellis perennis</i>	Blodyn y Dydd
<i>Calthapalustris</i>	Gold y Gors
<i>Cardamine pratensis</i>	Barclod y Foneddiges
<i>Carexdemissa</i>	Hesgen Felen
<i>Carexpanicea</i>	Hesgen Beniganddail
<i>Carexremota</i>	Hesgen Anghysbell
<i>Centaurea nigra</i>	Blodau pengaled
<i>Cerastium fontanum</i>	Heboglys Clust llygoden
<i>Chrysospleniumoppositifolium</i>	Eglyn Cyferbynddail
<i>Cirsium palustre</i>	Ysgallen y Gors
<i>Corylus avellana</i>	Collen, Cyll
<i>Crataegus monogyna</i>	Draenen Wen
<i>Cynosuruscristatus</i>	Rhonwellt y Ci Cribog
<i>Deschampsiaespitosa</i>	Gwygbys
<i>Digitalis purpurea</i>	Bysedd y Cŵn
<i>Dryopterisdilatata</i>	Marchredyn Llydain
<i>Festuca ovina agg.</i>	Peiswellt y Defaid
<i>Filipendulaulmaria</i>	Brenhines y Weirglodd, Erwain
<i>Fraxinus excelsior</i>	Onnen

Enw Gwyddonol	Enw Cyffredin
<i>Galeopsistetrahit</i>	Penboeth
<i>Galium aparine</i>	Gwlydd y perthi
<i>Galium saxatile</i>	Briwydd y Rhostir
<i>Galium palustre</i>	Briwydd y Gors
<i>Geranium robertianum</i>	Perlysiâu Robert
<i>Glechoma hederacea</i>	Llysiau'r Gerwyn
<i>Glyceriafluitans</i>	Melyswellt Nofiol
<i>Gnaphaliumuliginosum</i>	Edafeddog y Gors
<i>Hedera helix</i>	Eiddew
<i>Pilosellaofficinarum</i>	Heboglys Torllwyd
<i>Holcus lanatus</i>	Cawnen Benwen
<i>Hypericumandrosaemum</i>	Tutsan
<i>Hypericumhumifusum</i>	Eurinllys Ymlusgol
<i>Iris pseudacorus</i>	Gellesgen Felen
<i>Isolepissetacea</i>	Clwbfrwynen Fach
<i>Juncusacutiflorus</i>	Brwynen Glymog
<i>Juncusarticulatus</i>	Llafrwyn, Brwynen Gymalog
<i>Juncusbufonius</i>	Brwynen y Llyffant
<i>Juncuseffusus</i>	Pabwyren
<i>Scorzoneroidesautumnalis</i>	Peradyl yr Hydref
<i>Loliumperenne</i>	Rhygwellt Parhaol
<i>Lotus corniculatus</i>	Meillion Hopysaidd
<i>Lotus pedunculatus</i>	Pys Ceirw
<i>Luzula multiflora</i>	Brwynen Flodeuog
<i>Lychnisflos-cuculi</i>	Carpiog y Gors
<i>Matricaria discoidea</i>	Chwyn Pinafal
<i>Mentha aquatica</i>	Mintys y Dŵr
<i>Oenanthecrocata</i>	Cegid y Dŵr
<i>Oxalis acetosella</i>	Suran y Coed

Enw Gwyddonol	Enw Cyffredin
<i>Lythrum portula</i>	Troed y Gywen
<i>Phalaris arundinacea</i>	Corswellt Amryliw
<i>Plantago lanceolata</i>	Dail Llwynhidydd
<i>Plantago major</i>	Llyriad Mwyaf
<i>Poa annua</i>	Gweunwellt Unflwydd
<i>Polygonum arenastrum</i>	Canclwm Dail Cyfartal
<i>Persicaria hydropiper</i>	Poethlys y Dŵr
<i>Potentilla anserina</i>	Dail Arian
<i>Potentilla erecta</i>	Tresgl yr Eithin
<i>Prunella vulgaris</i>	Meddyges Las
<i>Ranunculus acris</i>	Blodau Ymenyn
<i>Ranunculus flammula</i>	Blaen y Gwayw Lleiaf, Poethfflam
<i>Ranunculus omiophyllus</i>	Crafanc y Frân Ddeilgron
<i>Ranunculus repens</i>	Crafanc Brân Ymlusgol
<i>Rubus fruticosus</i> agg.	Mieri
<i>Rumex acetosa</i>	Suran y Cŵn
<i>Rumex obtusifolius</i>	Tafolen y Cŵn
<i>Sagina procumbens</i>	Corwlyddyn Gorweddol
<i>Salix cinerea</i> subsp. <i>oleifolia</i>	Helygen Goch
<i>Senecio aquaticus</i>	Penfelen y Gors
<i>Stachys sylvatica</i>	Briwllys y Gwrych
<i>Stellaria graminea</i>	Tafod yr Edn Lleiaf
<i>Succisa pratensis</i>	Clafrllys Gwreidd-dan
<i>Taraxacum</i> agg.	Dant y Llew
<i>Trifolium pratense</i>	Meillionen Goch
<i>Trifolium repens</i>	Meillionen Wen
<i>Ulex europaeus</i>	Eithin
<i>Urtica dioica</i>	Danadl Poethion
<i>Veronica beccabunga</i>	Creulys y Dŵr

Enw Gwyddonol	Enw Cyffredin
<i>Veronica officinalis</i>	Rhyddlwyn y Rhos
<i>Veronica scutellata</i>	Rhyddlwyn y Gors
<i>Veronica serpyllifolia</i>	Rhyddlwyn Dail Teim
<i>Viola palustris</i>	Fioled y Gors

Cofnodwyd gan Stephen Evans. 1990.

Atodiad 2 – Adar

Enw Gwyddonol	Enw Cyffredin
<i>Accipiter nisus</i>	Cudyll Glas
<i>Aegithalos caudatus</i>	Titw cynffon hir
<i>Alauda arvensis</i>	Ehedydd
<i>Anas platyrhynchos</i>	Hwyaden Wyllt
<i>Anthus pratensis</i>	Pibydd y Waun
<i>Apus apus</i>	Gwennol Ddu
<i>Ardea cinerea</i>	Crëyr Glas
<i>Branta canadensis</i>	Gŵydd Canada
<i>Buteo buteo</i>	Boncath
<i>Carduelis cabaret</i>	Llinos Bengoch
<i>Carduelis carduelis</i>	Nico
<i>Carduelis chloris</i>	Llinos Werdd
<i>Carduelis spinus</i>	Pila gwyrdd
<i>Certhia familiaris</i>	Dringwr bach
<i>Charadrius hiaticula</i>	Cwtiad Torchog
<i>Cinclus cinclus</i>	Trochwr, Bronwen y Dŵr
<i>Columba oenas</i>	Colomen Wyllt
<i>Columba palumbus</i>	Colomen y Coed
<i>Corvus corax</i>	Cigfran
<i>Corvus corone</i>	Brân Dyddyn
<i>Corvus monedula</i>	Jac-y-do
<i>Cuculus canorus</i>	Y Gog
<i>Cyanistes caeruleus</i>	Titw Tomos Las
<i>Cygnus olor</i>	Alarch
<i>Delichon urbica</i>	Gwennol y Bondo
<i>Erithacus rubecula</i>	Robin
<i>Falco peregrinus</i>	Hebog Tramor
<i>Falco tinnunculus</i>	Cudyll Coch

Enw Gwyddonol	Enw Cyffredin
<i>Fringilla coelebs</i>	Asgell Fraith
<i>Gallinago gallinago</i>	Giach
<i>Gallinula chloropus</i>	Iâr Ddŵr
<i>Garrulus glandarius</i>	Sgrech y Coed
<i>Hirundo rustica</i>	Gwennol
<i>Larus argentatus</i>	Gwylan y Penwaig
<i>Larus fuscus</i>	Y Wylan Gefnddu Leiaf
<i>Larus marinus</i>	Y Wylan Gefnddu Fwyaf
<i>Locustella naevia</i>	Telwr y Gwair
<i>Mergus merganser</i>	Hwyaden Ddanheddog
<i>Milvus milvus</i>	Barcud
<i>Motacilla alba</i>	Sigl-i-gwt Brith
<i>Motacilla cinerea</i>	Sigl-i-gwt Llwyd
<i>Oenanthe oenanthe</i>	Cynffonwen
<i>Parus major</i>	Titw Mawr
<i>Passer domesticus</i>	Aderyn y To
<i>Periparus ater</i>	Titw Du
<i>Phasianus colchicus</i>	Ffesant
<i>Phoenicurus phoenicurus</i>	Tingoch
<i>Phylloscopus collybita</i>	Telwr yr Ardd
<i>Phylloscopus trochilus</i>	Telwr yr Helyg
<i>Pica pica</i>	Pioden
<i>Pluvialis apricaria</i>	Cwtiad Aur
<i>Poecile palustris</i>	Titw'r Gors
<i>Prunella modularis</i>	Llwyd y Berth
<i>Regulus regulus</i>	Dryw Melyn Cribog
<i>Saxicola torquata</i>	Clochdar y Cerrig
<i>Scolopax rusticola</i>	Cyffyllog
<i>Sitta europaea</i>	Cnocell y Cnau

Enw Gwyddonol	Enw Cyffredin
<i>Streptopelia decaocto</i>	Colomen Dorchog
<i>Strix aluco</i>	Tylluan Frech
<i>Sylvia atricapilla</i>	Telor Penddu
<i>Sylvia borin</i>	Telor yr Ardd
<i>Troglodytes troglodytes</i>	Y Dryw
<i>Turdus iliacus</i>	Asgell Goch
<i>Turdus merula</i>	Aderyn Du
<i>Turdus philomelos</i>	Bronfraith
<i>Turdus pilaris</i>	Aderyn yr Eira
<i>Turdus viscivorus</i>	Bronfraith Fawr
<i>Tyto alba</i>	Tylluan Wen

Cofnodwyd gan wirfoddolwr prosiect yr RSPB a chynghrair y ffermwyr 2011 a Kerry Silson

Atodiad 3 – Ystlumod

Enw Gwyddonol	Enw Cyffredin
<i>Myotis brandtii</i>	Ystlum Brandt
<i>Myotis mystacinus</i>	Ystlum Barfog
<i>Myotis nattereri</i>	Ystlum Clebrog
<i>Nyctalus noctua</i>	Ystlum Nosol
<i>Pipistrellus pipistrellus</i>	Ystlum Cyffredin Lleiaf
<i>Pipistrellus pygmaeus</i>	Ystlum Soprano Lleiaf
<i>Plecotus auritus</i>	Ystlum Clustiog
<i>Rhinolophus ferrumequinum</i>	Ystlum Trwyn Pedol Mwyaf

Cofnodwyd gan Margaret Clarke Mehefin 2017